



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales

Adroddiad Monitro Cynllun Iaith Gymraeg 2015-16

Awdur: Caren Prys Jones, Swyddog Iaith Gymraeg

Dyddiad: 3 Mai 2016

Fersiwn: 1

Cyhoeddi/Dosbarthu:

- Comisiynydd y Gymraeg
- Y Pwyllgor Iaith Gymraeg
- Bwrdd Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Y Cyhoedd (Rhyngrwyd)
- GIG Cymru (Mewnwyd)

Dyddiad Adolygu: 31 Mawrth 2017

Diben a Chrynodeb o'r Ddogfen:

Mae'r adroddiad hwn wedi'i baratoi yn unol â Chynllun Iaith Gymraeg statudol Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae'n rhoi manylion am ein perfformiad yn erbyn ymrwymiadau'r Cynllun.

Anfonir yr adroddiad at Gomisiynydd y Gymraeg, yn unol â'i chyfarwyddebau.

Mae'r adroddiad wedi'i gytuno gan Bwyllgor Iaith Gymraeg a Thîm Gweithredol Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Cyfeirnod y Cynllun Gwaith: Cynllun Iaith Gymraeg

1 Cyflwyniad

1.1 Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn ymrwymedig i roi defnyddwyr wrth galon ein gwasanaethau. Rydym am sicrhau eu bod yn cael gwasanaethau sy'n briodol i'w hanghenion, ac sy'n effeithiol.

Rydym o'r farn bod cyfathrebu ac iaith yn elfennau craidd gwasanaeth iechyd cyhoeddus ac, mae'n dilyn, felly, bod gwasanaeth priodol ac effeithiol yn un sy'n diwallu anghenion iaith a chyfathrebu defnyddiwr y gwasanaeth. Rydym yn cydnabod mai dim ond drwy gyfrwng y Gymraeg y gall rhai pobl gyfathrebu a chyfranogi yn ein gwasanaethau fel partneriaid cyfartal. Rydym yn ymrwymedig i ddiwallu anghenion iaith Gymraeg defnyddwyr ein gwasanaethau.

Yn 2010 cyhoeddwyd ein Cynllun Iaith Gymraeg lle y mynegwyd ein hymrwymiad i weld sensitifrwydd i anghenion iaith Gymraeg yn cael ei adlewyrchu drwy bob rhan o'r sefydliad, a chynyddu argaeledd ac ansawdd ein gwasanaethau iaith Gymraeg. Mae ein Cynllun yn cynnwys ymrwymiad i fonitro'r broses o weithredu'r Cynllun, ac i gyflwyno adroddiadau ar ein cynnydd i Fwrdd Iechyd Cyhoeddus Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg.

Mae'r adroddiad sy'n dilyn wedi'i baratoi yn unol â gofynion adrodd Comisiynydd y Gymraeg ar gyfer y cyfnod monitro 2015-16.

2 Asesiad o effaith polisïau

2.1 Nifer a chanran y polisïau a ddatblygwyd gan eich sefydliad (yn cynnwys y rhai a gafodd eu hadolygu neu eu diwygio) lle yr ystyriwyd yr effeithiau y byddai'r polisi yn eu cael ar y defnydd o'r Gymraeg.

Cyfarwyddiaeth	Polisi / Menter	A ystyriwyd yr effeithiau ar y defnydd o'r Gymraeg? Do / Naddo	Nifer a % y polisïau lle y cafodd yr effeithiau ar y defnydd o'r Gymraeg eu hystyried
Iechyd a Lles	Strategaeth Defnyddio Gwybodaeth	Do	1 (100%)
Gwasanaethau Iechyd Cyhoeddus	Gweithdrefn weithredu safonol 4 SE.70: Dyn yn Gofyn am gael Apwyntiad Sgrinio drwy gyfrwng y Gymraeg	Do	1 (100%)
Polisi, Ymchwil a Datblygu Rhyngwladol	Strategaeth Ymchwil Iechyd Cyhoeddus Cymru	Do	1 (100%)
Ansawdd, Nyrsio a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd	Polisi Gwisg	Do	2 (50%)
	Rhagofalon yn Seiliedig ar Drosglwyddo (Atal a rheoli heintiau)	Do	
	Polisi a Gweithdrefn Diogelu Iechyd Cyhoeddus Cymru (2016)	Naddo	

	Polisi Atal a'r Broses Atgyfeirio (2015)	Naddo	
Gweithrediadau a Chyllid	Cynllun Tymor Canolig Integredig 2016-2019	Do	2 (100%)
	Canllawiau Cynllunio'r Gyfarwyddiaeth	Do	
Gwella Ansawdd a Diogelwch Cleifion / 1000 o Fywydau	Dim	Dd/B	Dd/B
Y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol	Gweithdrefnau ar gyfer Cyflogau ac Absenoldeb - Mamolaeth, Mabwysiadu, Cymorth Tadolaeth/Mamolaeth, Absenoldeb Rhieni a Rennir a Thriniaeth IVF	Do	1 (50%)
	Polisi Fy Nghyfraniad	Naddo	
CYFANSWM	12	Do x 8 Naddo x 4	8 (67%)

2.2 Enghraifft o asesiad y tybiwyd iddo gael effaith ar y defnydd o'r Gymraeg a manylion sut y cafodd y polisi ei ddiwygio o ganlyniad i hynny.

2.2.1 Cynhaliwyd Aseiad o Effaith ar Gydraddoldeb cyn datblygu'r Gweithdrefnau Gweithredu Safonol ar gyfer Rhaglen Sgrinio Ymledladau Aortig Abdomenol Cymru, a oedd yn cynnwys asesu'r effaith ar y Gymraeg. Arweiniodd hyn at ddatblygu Gweithdrefn Weithredu Safonol 4 SE.70: Dyn yn Gofyn am gael yr Apwyntiad Sgrinio drwy gyfrwng y Gymraeg. Ystyriwyd y Gymraeg o'r cychwyn cyntaf. Mae'r Weithdrefn Weithredu Safonol fel a ganlyn:

4SE.70.1 Safon Ansawdd

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod Dynion sy'n gwneud cais am apwyntiad sgrinio drwy gyfrwng y Gymraeg yn cael eu hapwyntiad gyda Sgriniwr sy'n siarad Cymraeg.

4SE.70.2 Dull

Mae'r Sgriniwr yn cofnodi cais y Dyn ar y system Daybook a hefyd ar restr copi caled y clinig.

Os bydd Sgriniwr sy'n siarad Cymraeg ar gael yn y clinig hysbysir y dyn am hyn a gellir ei sgrinio yn yr apwyntiad hwnnw.

Os nad oes Sgriniwr sy'n siarad Cymraeg ar gael yn y clinig gellir cynnig apwyntiad arall i'r dyn.

Hysbysir y dyn y gall apwyntiad y clinig fod mewn lleoliad gwahanol.

Trefnir apwyntiad gan y RAD ac anfonir llythyr apwyntiad at y dyn.

4SE.70.3 Mesurau Ansawdd

Nifer y dynion a ofynnodd am glinig sgrinio drwy gyfrwng y Gymraeg

4SE.70.4 Rheoli Ansawdd/Archwilio

*Arolwg boddhad cwsmeriaid
Gohebiaeth ynghylch cwynion a chanmoliaeth
Archwiliad dewis iaith ASIMS*

4SE.70.5 Canllawiau Pellach

Fframwaith Strategol ar gyfer Gwasanaethau Cymraeg mewn Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol

2.2.2 Mae ein Cynllun Strategol yn disgrifio sut y bydd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cyfrannu at gyflawni nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol o ran sicrhau bod y Gymraeg yn ffynnu yn Iechyd Cyhoeddus Cymru a'n bod yn sicrhau'r cynnig rhagweithiol gorau posibl i'r aelodau hynny o'r cyhoedd sy'n dymuno derbyn ein gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae'r Cynllun Strategol hefyd yn nodi y byddwn, yn ystod 2016/17, yn ehangu ein cynllun gweithredu iaith Gymraeg corfforaethol unigol i gynnwys cynllunio iaith Gymraeg cynhwysfawr – gan gynnwys cynllunio gweithlu dwyieithog – ar lefel is-adrannau ar draws ein sefydliad.

3 Gwasanaethau a ddarperir gan eraill

3.1 Nifer a chanran cytundebau trydydd parti sy'n cael eu monitro i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â gofynion perthnasol y cynllun iaith Gymraeg.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 yn cael ei gwneud ym mhob contract yn unol ag Amodau a Thelerau safonol y GIG, Cymal 51:

Mae'r Contractiwr yn gwarantu ac yn ymrwymo na fydd yn cynnal y Contract hwn mewn ffordd sy'n golygu bod yr Awdurdod neu unrhyw Fuddiolwr yn torri ei rwymedigaethau o ran y Gymraeg gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i'w rwymedigaethau o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 neu Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Cyfarwyddiaeth	Nifer y contractau lle y nodir gofynion iaith Gymraeg	Nifer wedi'u monitro ar gyfer cydymffurfiaeth â'r Gymraeg
Gwella Ansawdd a Diogelwch Cleifion / 1000 o Fwydau	12	12 100%
Polisi, Ymchwil a Datblygu Rhyngwladol	2	2 100%
Gweithrediadau a Chyllid	3	3 (100%)
Iechyd a Lles	1	1 (100%)
CYFANSWM	18	18 (100%)

3.2 Enghreifftiau o waith monitro a wnaed i asesu a oedd cytundeb trydydd parti yn cydymffurfio â gofynion perthnasol y cynllun iaith Gymraeg a manylion unrhyw gamau gweithredu a gymerwyd o ganlyniad i'r gwaith monitro.

3.2.1 Mae'r Gyfarwyddiaeth Polisi, Ymchwil a Datblygu Rhyngwladol yn dyfarnu contractau i'r byd academiaidd. Cyflwynir diweddariadau ar gynnydd ddwywaith y flwyddyn a chynhelir un neu ddau o gyfarfodydd y flwyddyn gyda phob arweinydd academiaidd. Trafodir cynnydd yn erbyn yr hyn y dylid ei gyflawni, sy'n cynnwys paratoi adroddiadau dwyieithog. Ystyrir unrhyw gais gan yr academyddion i wyro oddi wrth yr hyn a ddisgwylir. Nid yw'r arweinwyr academiaidd wedi gwneud cais i newid y drefn o gyflwyno adroddiad dwyieithog.

3.2.2 Mae gan Dîm Iechyd Cyhoeddus Gogledd Cymru contract gyda thrydydd parti ar gyfer paratoi llenyddiaeth, tudalennau gwe, a chyfryngau cymdeithasol dwyieithog wedi'u hanelu at y cyhoedd yn ymwneud â mentrau *Merched â Breuddwydion a Stopia er eu mwyn nhw*. Gwneir gwaith monitro ansawdd rheolaidd gyda'r contractwr i sicrhau bod y deunydd Cymraeg yn cyrraedd safonau uchel y tîm. Mae holl ddiweddariadau'r Rhanddeiliaid hefyd yn cael eu cyflwyno'n ddwyieithog.

4 Cynllunio'r Gweithlu

4.1 Diweddariad ar y cynnydd tuag at fabwysiadu / gweithredu strategaeth sgiliau Cymraeg / dwyieithog y sefydliad

Mae'r strategaeth yn cael ei datblygu ar hyn o bryd a dylai gael ei chwblhau a'i chymeradwyo gan y Bwrdd erbyn mis Medi 2016.

4.2 Nifer a chanran cyflogeion y sefydliad y mae eu sgiliau Cymraeg wedi'u hasesu

1377 (93.5%)

Nid yw Iechyd Cyhoeddus Cymru yn asesu sgiliau Cymraeg ei gyflogeion. Rydym yn ceisio cofnodi gwybodaeth am sgiliau Cymraeg presennol ein staff drwy eu hannog i hunanasesu a chofnodi eu sgiliau drwy'r Cofnod Staff Electronig. Fodd bynnag, nid oes gan yr holl staff fynediad i'r Cofnod Staff Electronig felly mae'r data yn anghyflawn ar hyn o bryd. Mae 95 (6.5%) o aelodau o staff nad ydynt wedi cofnodi eu sgiliau iaith ar y Cofnod Staff Electronig. Rydym yn gobeithio cywiro hyn erbyn mis Rhagfyr 2016.

4.3 Nifer a chanran y cyflogeion y mae eu sgiliau Cymraeg wedi'u hasesu fesul grŵp blaenoriaeth:

- **Plant a phobl ifanc**
- **Pobl hŷn**
- **Pobl ag anableddau dysgu**
- **Defnyddwyr gwasanaethau iechyd meddwl**
- **Gwasanaethau dementia**
- **Gwasanaethau strôc**
- **Gwasanaethau therapi lleferydd ac iaith**

Gweler yr ymateb a ddarparwyd yn adran 4.2. Nid yw'r Cofnod Staff Electronig yn ein galluogi i ddadgyfuno gwybodaeth am sgiliau iaith yn ôl 'grŵp blaenoriaeth' ar hyn o bryd. Byddwn yn ystyried hyn wrth i ni ddatblygu ein Strategaeth Sgiliau Cymraeg. Byddwn hefyd yn ystyried sut y gellir cyflawni hyn fel rhan o'n trefniadau cynllunio'r gweithlu ehangach.

4.4 Nifer a chanran y cyflogeion sydd â sgiliau Cymraeg (fesul lefel sgil)

		Nifer	Canran %
Nifer y staff Iechyd Cyhoeddus Cymru ar 31/03/2016		1472	
Hyfedr yn y Gymraeg ar 31/03/2016		470	31.93%
Nifer y staff sy'n Hyfedr ar Lefel 1	Gwrando/Siarad Cymraeg	74	5%
	Darllen Cymraeg	46	3%
	Ysgrifennu Cymraeg	42	2.9%
Nifer y staff yn Hyfedr ar Lefel 2	Gwrando/Siarad Cymraeg	14	1%
	Darllen Cymraeg	11	0.7%
	Ysgrifennu Cymraeg	17	1.2%
Nifer y staff yn Hyfedr ar Lefel 3	Gwrando/Siarad Cymraeg	26	1.8%
	Darllen Cymraeg	10	0.7%
	Ysgrifennu Cymraeg	14	1%
Nifer y staff yn Hyfedr ar Lefel 4	Gwrando/Siarad Cymraeg	18	1.2%
	Darllen Cymraeg	18	1.2%
	Ysgrifennu Cymraeg	13	0.9%
Nifer y staff yn Hyfedr ar Lefel 5	Gwrando/Siarad Cymraeg	51	3.5%
	Darllen Cymraeg	36	2.4%
	Ysgrifennu Cymraeg	36	2.4%

5 Hyfforddiant er mwyn gwella sgiliau Cymraeg

5.1 Nifer a chanran gweithlu'r sefydliad a gafodd hyfforddiant i wella eu sgiliau Cymraeg i lefel cymhwyster penodol.

Cafodd 9 aelod o staff (0.6% o blith cyfanswm o 1472) hyfforddiant Cymraeg gyda chymorth Iechyd Cyhoeddus Cymru yn ystod 2015-16.

Cyfarwyddiaeth	Nifer y staff sy'n dysgu Cymraeg i lefel cymhwyster penodol
Gwella Ansawdd a Diogelwch Cleifion / 1000 o Fywydau	0
Polisi, Ymchwil a Datblygu Rhyngwladol	4 x Lefel Mynediad
Y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol	0
Gweithrediadau a Chyllid	1 x Lefel Mynediad
Iechyd a Lles	4 3 x Lefel Mynediad 1 x Canolradd
Gwasanaethau Iechyd Cyhoeddus	0
Ansawdd, Nyrsio a Gweithwyr Iechyd Proffesiynol Perthynol	0
CYFANSWM	9 (0.6%)

6 Recriwtio

6.1 Nifer a chanran y swyddi newydd a gwag a hysbysebwyd gyda'r gofynion canlynol:

- Mae sgiliau Cymraeg yn hanfodol
- Mae sgiliau Cymraeg yn ddymunol
- Nid yw sgiliau Cymraeg yn ofynnol

Nifer y swyddi a hysbysebwyd	Nifer a chanran y swyddi 'Cymraeg yn hanfodol'	Nifer a chanran y swyddi 'Cymraeg yn Ddymunol'	Nifer a chanran y swyddi 'Nid yw sgiliau Cymraeg yn ofynnol'
236	5 (2%)	230 (97.5%)	1 (0.5%)

6.2 O'r swyddi hynny a hysbysebwyd â gofyniad hanfodol, nifer a chanran y swyddi a lenwyd gan unigolion a oedd yn bodloni'r gofyniad.

Cyfarwyddiaeth	Nifer y swyddi Cymraeg yn Hanfodol a hysbysebwyd	Nifer a % y swyddi a lenwyd gan unigolion a oedd yn bodloni'r gofyniad iaith
Iechyd a Lles	4	4 (100%)
Gweithrediadau a Chyllid	1	1 (100%)

6.3 Enghraifft o asesiad sy'n dangos sut y gwnaed penderfyniad i hysbysebu'r swydd:

6.3.1 Mae sgiliau Cymraeg yn hanfodol

Hysbysebodd Dim Smygu Cymru ddwy swydd Cynghorwyr Rhoi'r Gorau i Smygu yn 2015-16. Edrychodd yr Uwch Reolwyr ar nifer y cynghorwyr sy'n siarad Cymraeg sydd mewn swyddi ar draws Cymru ar hyn o bryd gan ystyried a fyddai hyn yn ddigon i

gynorthwyo ceisiadau 1:1 am gymorth o fewn radiws milltiroedd penodol. Nodwyd bylchau o ran y ddarpariaeth ac felly er mwyn sicrhau adnoddau digonol, penderfynwyd penodi Cynghorydd yn Ne-ddwyrain Cymru fel swydd lle roedd y Gymraeg yn hanfodol ac un arall yng Ngwynedd, yn y Gogledd.

6.3.2 Mae sgiliau Cymraeg yn ddymunol

Ac eithrio swyddi 'Cymraeg yn Hanfodol', mae'r holl swyddi Iechyd Cyhoeddus Cymru eraill yn nodi bod sgiliau Cymraeg yn 'ddymunol'. Ar hyn o bryd, ni chynhelir asesiad ffurfiol. Eir i'r afael â hyn fel rhan o'r broses o ddatblygu polisi a gweithdrefnau recriwtio newydd.

6.3.3 Dim sgiliau Cymraeg yn ofynnol

Ac eithrio swyddi 'Cymraeg yn Hanfodol', mae'r holl swyddi Iechyd Cyhoeddus Cymru eraill yn nodi bod sgiliau Cymraeg yn 'ddymunol'. Fodd bynnag, yn 2015-16, hysbysebwyd un swydd nad oedd yn nodi unrhyw ofynion iaith. Amryfusedd oedd hwn. Ar hyn o bryd, ni chynhelir asesiad ffurfiol. Eir i'r afael â hyn fel rhan o'r broses o ddatblygu polisi a gweithdrefnau recriwtio newydd.

7 Hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith

7.1 Nifer a chanran staff newydd y sefydliad (h.y. newydd ers 1 Ebrill 2015) a gafodd hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith Gymraeg

Cyn mis Hydref 2014 roedd hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith Iechyd Cyhoeddus Cymru ar gyfer recriwtiaid newydd yn cynnwys e-ddysgu a oedd ar gael ar System Gweinyddu Dysgu Partneriaeth Cydwasanaethau'r GIG. Ym mis Hydref 2014 cafodd y system hon ei dadgomisiynu a chafodd yr holl e-ddysgu ei drosglwyddo i'r safle Learning@NHSWales. Ni chafodd y deunydd e-ddysgu Ymwybyddiaeth Iaith Gymraeg a oedd ar gael ar yr hen safle ei drosglwyddo i'r safle newydd. Mae hyn yn golygu nad yw Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi cael mynediad i ddeunyddiau e-ddysgu Ymwybyddiaeth Iaith Gymraeg ers mis Hydref 2014.

Fodd bynnag, mae'r Bartneriaeth Cydwasanaethau wedi bod yn datblygu pecyn e-ddysgu Ymwybyddiaeth Iaith Gymraeg Cymru gyfan y disgwylir iddo gael ei lansio yng ngwanwyn 2016. Bydd gan recriwtiaid newydd fynediad i'r hyfforddiant hwn pan fydd ar gael.

7.2 Nifer a chanran gweithlu cyfan y sefydliad sydd wedi cael hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith ers cyflwyno'r hyfforddiant

Nid oes data ar gael oherwydd cafodd yr holl ddata eu colli pan gafodd System Gweinyddu Dysgu Partneriaeth Cydwasanaethau'r GIG ei dadgomisiynu.

7.3 Mae'r Swyddog Iaith Gymraeg yn parhau i gyflwyno sesiynau ymwybyddiaeth i dimau ar draws y sefydliad. Yn ystod 2015-16, aeth tua 180 o staff i'r sesiynau hyn.

8 Gwefan

8.1 Canran o wefan(nau) sydd ar gael yn Gymraeg

8.1.1 Mae'r gwefannau canlynol yn gwbl ddwyieithog:

Gwefan ac URL	
Uned Gwybodaeth ac Arolygaeth Canser Cymru (WCISU)	www.wcisu.wales.nhs.uk
Sgrinio Cyn Geni Cymru	www.antenatalscreening.wales.nhs.uk www.screeningservices.org/asw/
Sgrinio Coluddion Cymru	www.bowelscreeningwales.org.uk www.screeningservices.org
Bron Brawf Cymru	www.breasttestwales.wales.nhs.uk www.screeningservices.org
Sgrinio Serfigol Cymru	www.cervicalscreeningwales.wales.nhs.uk www.screeningservices.org/csw
Sgrinio Clyw Babanod Cymru	www.newbornhearingscreening.wales.nhs.uk www.screeningservices.org
Sgrinio Ymlediadau Aortig Abdomenol Cymru	www.aascreening.wales.nhs.uk www.screeningservices.org
Sgrinio Smotyn Gwaed Newydd-anedig	www.newbornbloodspotscreening.wales.nhs.uk www.screeningservices.org
Rhwydwaith HIV Cymru Gyfan	www.hivnetworkwales.org.uk
Iechyd yng Nghymru	www.wales.nhs.uk
Her Iechyd Cymru	www.healthchallengewales.org www.heriechydymru.org
Gwella Ansawdd Gyda'n Gilydd	www.iqt.wales.nhs.uk
Holwch am Glotiau	www.askaboutclots.co.uk
Canolfan Cydraddoldeb a Hawliau Dynol GIG Cymru	www.equalityhumanrightswales.wales.nhs.uk
Cymru Chwareus	www.friskywales.org www.cymruchwareus.org

Gwefan ac URL	
Cymru Iach ar Waith www.healthyworkingwales.com	www.cymruiacharwaith.com
Screening for Life	www.screeningforlife.wales.nhs.uk
Add to Your Life / Ychwanegu at Fywyd www.addtoyourlife.co.uk	www.ychwaneguatfywyd.co.uk
Gwobrau GIG Cymru http://www.nhswalesawards.wales.nhs.uk/home http://www.nhswalesawards.wales.nhs.uk/hafan	
Gwasanaeth Gwybodaeth a Chofrestr Anomaledau Cynhenid Cymru (CARIS) www.caris.wales.nhs.uk	
Gwobrau GIG Cymru http://www.nhswalesawards.wales.nhs.uk/home http://www.nhswalesawards.wales.nhs.uk/hafan	
GP 1	www.gpun.cymru.nhs.uk www.gpone.wales.nhs.uk

8.1.2 Mae'r tabl sy'n dilyn yn rhoi manylion am wefannau Iechyd Cyhoeddus Cymru sy'n rhannol ddwyieithog. Mae hefyd yn rhoi'r diweddaraf am y cynnydd a wnaed i wella/cynyddu darpariaeth Gymraeg y wefan, a gwybodaeth am y broses a ddefnyddiwyd i sicrhau bod cynnwys presennol, diweddariadau a chynnwys newydd yn cydymffurfio â gofynion perthnasol y cynllun iaith Gymraeg (os yw'r broses wedi newid ers adroddiad 2014-15).

Gwefan	% Cymraeg: Mawrth 2015	% Cymraeg: Mawrth 2016	Proses Rheoli Cynnwys / Sylwadau
<p>Iechyd Cyhoeddus Cymru</p> <p>www.publichealthwales.org</p> <p>www.iechydcyhoeddus.cymru.wales.nhs.uk</p>	85%	85%	<p>Mae newidiadau i'r gwefannau Cymraeg a Saesneg fel arfer yn cael eu gwneud ar yr un pryd ond yn achlysurol bydd y wefan Gymraeg yn cael ei ddiweddarau o fewn cyfnod byr ar ôl i newidiadau gael eu gwneud i'r wefan Saesneg.</p> <p>Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cynllunio prosiect i ailddatblygu'r brif wefan gorfforaethol, sy'n anelu at letya gwefan Iechyd Cyhoeddus Cymru newydd gwbl ddwyieithog, gan ymgorffori rhai is-gyfrifon presennol a bydd yn disodli gwefan gorfforaethol bresennol Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae rhan o'r gwaith hwn yn edrych ar brosesau newydd i wneud darpariaeth Gymraeg yn fwy effeithlon ar draws ein gwefannau.</p>
<p>Diogelu Iechyd ar gyfer Iechyd Cyhoeddus Cymru</p> <p>http://www.wales.nhs.uk/healthprotection</p>	0%	0%	<p>Mae'r is-safle hwn yn cael ei ddatblygu a bydd yn brif ran o'r brif wefan gorfforaethol maes o law. Bydd y wefan bresennol yn cael ei chau pan fo'n briodol.</p>
<p>Rhaglen Cymru ar gyfer Heintiau sy'n Gysylltiedig â Gofal Iechyd</p>	20%	20%	<p>Bydd yr is-safle hwn yn rhan o'r brif wefan gorfforaethol maes o law. Bydd y wefan bresennol yn</p>

http://www.wales.nhs.uk/whaip			cael ei chau pan fo'n briodol.
Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru http://www.publichealthwalesobservatory.org/ a http://www.arsyllfaiechydcyhoedduscymru.org/	96%	99%	Mae cynnwys newydd ar gyfer y we-dudalen yn cael ei gyfieithu'n rheolaidd fel rhan o'r broses o ychwanegu cynnwys dadansoddol at y wefan. Byddai unrhyw adolygiad o gynnwys gwe-dudalen fel arfer hefyd yn ystyried yr angen i wneud newidiadau cyfatebol i'r wefan Gymraeg. Mae newidiadau i'r gwefannau Cymraeg a Saesneg fel arfer yn cael eu gwneud ar yr un pryd ond yn achlysurol bydd y wefan Gymraeg yn cael ei diweddarau o fewn cyfnod byr ar ôl i newidiadau gael eu gwneud i'r wefan Saesneg
Dim Smygu Cymru www.stopsmokingwales.com www.dimsmygucymru.com	50%	70%	Mae'r holl dudalennau sydd wedi'u bwriadu ar gyfer y cyhoedd yn ddwyieithog. Mae'r offeryn rhoi'r gorau iddi ar-lein y cyfeiriwyd ato mewn adroddiad monitro blaenorol ar gael i'r cyhoedd yn Gymraeg bellach. Gwneir newidiadau i'r gwefannau Cymraeg a Saesneg ar yr un pryd.
Uned Gymorth Asesu'r Effaith ar Iechyd Cymru http://www.wales.nhs.uk/sites3/home.cfm?OrgID=522	80%	80%	Mae'r wefan Gymraeg yn cael ei diweddarau ryw wythnos ar ôl gwneud newidiadau i'r wefan Saesneg. Bydd y wefan hon yn cael ei hymgorffori yng ngwefan Rhwydwaith

			Iechyd Cyhoeddus Cymru ym mis Mehefin 2016.
Gwefan gorfforaethol 1000 o Fywydau - Gwasanaeth Gwella www.1000livesplus.wales.nhs.uk www.1000amwyofywydau.wales.nhs.uk	40%	50%	Mae gwaith yn parhau er mwyn gwneud hon yn wefan cwbl ddwyieithog – mae hon yn flaenoriaeth ar gyfer 2016/17. Mae'r holl dudalennau glanio a thudalennau lefel 1 ^{af} /2 ^{il} yn ddwyieithog hefyd erbyn hyn yn ogystal ag eitemau newyddion, cyhoeddiadau allweddol a blogiau.
EppCymru http://www.wales.nhs.uk/sites3/home.cfm?orgid=537 http://www.wales.nhs.uk/sites3/w-home.cfm?orgid=537	85%	85%	Mae gwefan cwbl ddwyieithog yn flaenoriaeth ar gyfer 2016/17
Gofal Cymhleth www.complexcarewales.org	0%	0%	Mae dyfodol y wefan hon yn cael ei adolygu
Pencampwyr Iechyd http://www.championforhealth.wales.nhs.uk/home http://www.pencampwryiechyd.wales.nhs.uk/hafan	95%	95%	Gwneir newidiadau i'r gwefannau Cymraeg a Saesneg ar yr un pryd.
Canolfan Ryngwladol Cydlynw Iechyd www.iechydrhyngwladol.wales.nhs.uk www.internationalhealth.wales.nhs.uk	95%	95%	Bydd y wefan hon yn cael ei hymgorffori yng ngwefan Rhwydwaith Iechyd Cyhoeddus Cymru ym mis Mehefin 2016.
Grŵp Cyngori Arbenigol Canser http://www.wales.nhs	0%	0%	Trosglwyddodd y gwasanaeth hwn o Iechyd Cyhoeddus Cymru i

.uk/sites3/home.cfm?orgid=322			Gydweithfa Iechyd GIG Cymru ar 1 Ebrill 2016 felly roedd dyfodol y wefan yn cael ei adolygu yn ystod 2015-16.
Rhwydwaith Iechyd Cyhoeddus Cymru www.publichealthnetw.ork.cymru.cy a www.publichealthnetw.ork.cymru/en	Nid oeddent yn bodoli (gwnaethant gymryd lle gwefannau eraill)	Newydd 95%	Mae gweddill y cynnwys yn cael ei gyfeirio i wefannau nad ydynt yn rhai Cymraeg neu'n cael eu darparu gan ffynonellau nad ydynt o Gymru (e.e. dogfennau Sefydliad Iechyd y Byd, yr UE)

9 Gwasanaethau Cymraeg a ddarperir

9.1 Gwybodaeth am ddulliau a ddefnyddir i hyrwyddo gwasanaethau Cymraeg y sefydliad a thystiolaeth o unrhyw gynnydd dilynol yn nefnydd y cyhoedd o'r gwasanaethau

9.1.1 Cynhaliodd Iechyd Cyhoeddus Cymru dri digwyddiad i ddefnyddwyr gwasanaethau yng ngogledd, canolbarth a de Cymru ym mis Ionawr / Chwefror 2016. Ar y gwahoddiadau nodwyd y byddai croeso i gynrychiolwyr gymryd rhan yn Gymraeg. Ar ddechrau pob digwyddiad, atgoffwyd y cynrychiolwyr bod croeso iddynt gyfrannu yn Gymraeg a thynnwyd eu sylw ar y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd a oedd yn bresennol ym mhob un o'r tri digwyddiad. Yn y digwyddiadau yng nghanolbarth a gogledd Cymru, cyfranodd sawl cynadleddwr yn Gymraeg felly darparwyd y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd er budd cynadleddwyr eraill.

9.1.2 Atebir galwadau i ganolfan alwadau Dim Smygu Cymru gyda chyfarfodiad dwyieithog a gofynnir i'r galwyr ddewis parhau â'r alwad yn Gymraeg neu Saesneg. Os bydd Cymraeg yn cael ei dewis, trosglwyddir y galwr i berson sy'n siarad Cymraeg er mwyn delio â'r alwad. Ceir cyfleuster *Gofyn am Alwad* ar wefan Dim Smygu Cymru. Bydd cleientiaid sy'n cyflwyno cais am alwad o'r safle Cymraeg yn cael galwad ffôn gan aelod o staff sy'n siarad Cymraeg.

9.1.3 Mae Bron Brawf Cymru yn arddangos y posteri 'Iaith Gwaith' mewn clinigau sgrinio pan fydd sgriniwr sy'n siarad Cymraeg ar

ddyletswydd. Wrth gyrraedd clinigau asesu, gofynnir i'r menywod gwblhau holiaduron sy'n cynnwys cwestiynau am eu dewis iaith.

9.1.4 Mae'r holl ddeunyddiau cyhoeddus fel taflenni ffeithiau, adnoddau hyrwyddo, holiaduron, a holiaduron a ddatblygir gan y Tîm Ymgysylltu â Sgrinio yn cael eu paratoi'n ddwyieithog fel mater o drefn. Pan fydd digwyddiadau hyfforddi yn cael eu trefnu, gofynnir i'r cynrychiolwyr nodi eu hanghenion ieithyddol cyn dod i'r hyfforddiant.

9.1.5 Mae staff sgrinio sy'n siaradwyr Cymraeg rhugl yn gwisgo llinyn 'Cymraeg' a'r bathodyn pin 'Cymraeg'.

9.1.6 Atebir galwadau i ganolfan alwadau Sgrinio Coluddion Cymru gyda chyfarfodiad dwyieithog a gofynnir i'r galwyr ddewis parhau â'r alwad yn Gymraeg neu Saesneg. Os bydd Cymraeg yn cael ei dewis, trosglwyddir y galwr i berson sy'n siarad Cymraeg.

9.2 Gwybodaeth am ddulliau a ddefnyddir i asesu ansawdd gwasanaeth Cymraeg y sefydliad drwy asesu profiad defnyddwyr gwasanaeth (fel arolygon, siopwr dirgel ac ati.)

9.2.1 Roedd cynrychiolwyr a aeth i'n digwyddiadau defnyddwyr gwasanaethau yng ngogledd, canolbarth a de Cymru ym mis Ionawr / Chwefror 2016 wedi cwblhau ffurflenni adborth ac roedd eu hymatebion yn gadarnhaol iawn.

9.2.2 Mae Dim Smygu Cymru yn monitro ansawdd y gwasanaethau a ddarperir mewn nifer o ffyrdd sy'n cynnwys adroddiadau perfformiad isod sy'n amlinellu canlyniadau, a holiaduron boddhad cleientiaid. Gofynnir nifer o gwestiynau i gleientiaid yn ymwneud ag ansawdd y cymorth a gawsant a phan geir sylwadau negyddol mae proses i fynd i'r afael â hyn. Yn y ganolfan alwadau, mae goruchwyliwr ein canolfan ddwyieithog yn monitro ymatebion i alwadau drwy wrando ar alwadau a geir yn Gymraeg a Saesneg ac mae'n rhoi adborth i'r rhai sy'n ymdrin â galwadau.

9.2.3 Mae holiaduron profiad defnyddwyr gwasanaethau Bron Brawf Cymru a Rhaglen Sgrinio Ymlediadau Aortig Abdomenol Cymru yn gofyn i'r cyfranogwyr sgrinio: 'A oeddech yn gallu siarad Cymraeg â'r staff os oedd angen i chi wneud hyn?'

9.2.4 Mae ein prif wefan gorfforaethol yn cael ei hadolygu. Rhan o waith prosiect y wefan wrth symud ymlaen fydd edrych ar

grwpiau defnyddwyr a phrofi'r nodweddion Cymraeg a Saesneg i sicrhau bod y wefan yn diwallu anghenion defnyddwyr Cymraeg a Saesneg fel ei gilydd.

10 Cwynion

10.1 Nifer y cwynion a gafwyd ynglŷn â gweithredu'r cynllun iaith Gymraeg

Cafodd Iechyd Cyhoeddus Cymru dair cwyn yn ystod 2015-16, un (25%) yn llai na'r hyn a gafwyd yn 2014-15. Fodd bynnag, dim ond dau o'r cwynion hyn a oedd yn ymwneud â gweithgareddau Iechyd Cyhoeddus Cymru.

10.2 Cafodd rhaglen sgrinio Bron Brawf Cymru Iechyd Cyhoeddus Cymru un llythyr o ddiolch yn ymwneud â darparu gwasanaeth yn Gymraeg.